Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

# Pwyllgor Dethol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
# Cylch Gorchwyl

**1. CYFLWYNIAD**

Mae'r ddogfen hon yn diffinio'r cylch gorchwyl ar gyfer Pwyllgor Dethol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ei ymchwiliadau, ei aelodaeth, a rolau a chyfrifoldebau'r aelodau.

**2. DIBEN Y PWYLLGOR DETHOL**

Sefydlwyd y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Mae ganddynt ddyletswydd statudol a mandad etholiadol i ddwyn yr heddlu i gyfrif ar ran y cyhoedd.

Ochr yn ochr â Bwrdd Plismona a Bwrdd Perfformiad Strategol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, cynhelir ymchwiliadau'r Pwyllgor Dethol ar bynciau penodol, yn unol â'r blaenoriaethau a amlinellir yng Nghynllun Heddlu a Throseddu 2025-2029, ac a nodwyd fel y prif feysydd i graffu arnynt a'u datblygu gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Bydd yr ymchwiliadau hyn yn newid y dull adolygu craffu dwys a fabwysiadwyd yn flaenorol gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Mae ymchwiliadau'r Pwyllgor Dethol yn galluogi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i ddwyn Prif Gwnstabl a phartneriaid Heddlu Dyfed-Powys i gyfrif yn gyhoeddus, trwy graffu ar dystiolaeth a gwybodaeth a ddarperir gan randdeiliaid allweddol mewn gwrandawiadau'r Pwyllgor Dethol a thrwy ymgysylltu ac ymgynghori. Bydd y dull hwn yn caniatáu i ddarparwyr tystiolaeth ddangos eu bod yn darparu gwasanaethau ategol, ac yn bwysicach fyth, bydd yn helpu i lunio gwelliannau yn y dyfodol yn y maes sydd dan sylw.

Bydd canlyniadau ymchwiliadau'r Pwyllgor Dethol yn cael eu cyhoeddi, ac efallai y bydd angen ymateb gan y Pwyllgor Dethol neu asiantaethau partner eraill. Gall y canfyddiadau hefyd lywio penderfyniadau buddsoddi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ynghylch darparu gwasanaethau.

Mae ymchwiliadau'r Pwyllgor Dethol yn caniatáu i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu arfer ei rôl mewn modd tryloyw, drwy wneud y canlynol:

- Sicrhau gwaith craffu cadarn a dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif;
- Sicrhau bod llais dioddefwyr a goroeswyr yn cael ei glywed;
- Cynnwys y cyhoedd mewn atebolrwydd lleol;
- Gweithio gyda phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol i sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol ehangach yn effeithlon ac yn effeithiol;
- Cyhoeddi gwybodaeth i alluogi'r cyhoedd i asesu perfformiad Heddlu Dyfed-Powys a phartneriaid.

**3. LLYWODRAETHU**

Cadeirydd y Pwyllgor Dethol yw Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, gyda'r Prif Weithredwr a Swyddog Monitro yn Ddirprwy Gadeirydd.

Ni ragwelir y bydd angen i'r Pwyllgor Dethol uwchgyfeirio unrhyw faterion i'w datrys. Fodd bynnag, os nodir unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg, byddant yn cael eu rhannu gyda'r awdurdod perthnasol cyn gynted â phosibl i'w hystyried a/neu i weithredu arnynt.

Nid oes gan y Pwyllgor Dethol yr awdurdod i wneud penderfyniadau a neilltuo adnoddau.

**4. RHAGLEN YMCHWILIAD**

Bydd blaenraglen waith yn cael ei sefydlu i sicrhau bod ymchwiliadau'n effeithiol ac yn canolbwyntio ar faterion ar adegau priodol drwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, bydd y rhaglen yn sicrhau digon o hyblygrwydd i ganiatáu ymatebion brys i ddigwyddiadau sy'n newid. Bydd hyn yn cael ei adolygu bob chwarter gan dîm gweithredol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Bydd pynciau'r ymchwiliad yn cael eu nodi yn unol â Chynllun yr Heddlu a Throseddu 2025-2029, a thrwy awgrymiadau gan gadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Dethol, staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, grwpiau buddiant a'r cyhoedd. Bydd ymchwiliadau'n cael eu blaenoriaethu yn seiliedig ar faterion sy'n ymwneud â galw gweithredol, effaith ar y gymuned a risg sefydliadol.

**5. AELODAETH**

Bydd y Pwyllgor Dethol yn cynnwys yr aelodau craidd canlynol (neu gynrychiolydd enwebedig):

- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (Cadeirydd)
- Prif Weithredwr a Swyddog Monitro (Dirprwy Gadeirydd) Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Prif Swyddog Cyllid Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Cadeirydd y Panel Heddlu a Throseddu
- Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio

Bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu hefyd yn gwahodd aelodau penodol i'r ymchwiliad i ymuno â'r aelodau craidd ar gyfer pob ymchwiliad gan y Pwyllgor Dethol, yn dibynnu ar y pwnc dan sylw. Gallai hyn gynnwys cynrychiolwyr cynllun gwirfoddolwyr a phanel craffu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, rhanddeiliaid allweddol annibynnol a phartneriaid sy'n gweithio o fewn y portffolio dan sylw, a chynrychiolwyr ymchwil a'r byd academaidd.

Bydd pob ymchwiliad yn amrywio o ran hyd, yn dibynnu ar gwmpas y testun dan sylw. Bydd y Pwyllgor Dethol yn anelu at gynnal hyd at dri ymchwiliad y flwyddyn.

Bydd strwythur cyfarfodydd y Pwyllgor Dethol yn cael ei bennu gan gylch gorchwyl pob ymchwiliad unigol, a fydd yn cael ei drafod a'i gymeradwyo yng ngwrandawiad cyntaf pob ymchwiliad.

Nid oes cworwm ar gyfer y Pwyllgor Dethol gan nad yw'n gwneud unrhyw benderfyniadau.

**6. RÔL Y CADEIRYDD**

Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am y canlynol:

- Sicrhau bod y cyfarfodydd yn parhau i ganolbwyntio ar y llinell ymholi y cytunwyd arni;

- Sicrhau bod pob trafodaeth yn addas i'w cyrchu gan y cyhoedd;
- Sicrhau bod aelodau'r Pwyllgor Dethol yn gweithio fel tîm;
- Rhoi cyfarwyddyd i staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu rhwng cyfarfodydd ffurfiol i sicrhau y gofynnir am yr holl wybodaeth ofynnol mewn da bryd a bod modd ei darparu; a
- Sicrhau y gall aelodau'r Pwyllgor Dethol gyfrannu'n weithredol at bwnc yr ymchwiliad, sesiynau tystiolaeth lafar ac adroddiadau.

**7. YMRWYMIAD AMSER AELODAU**

Er mwyn cymryd rhan yn effeithiol yng ngwaith y Pwyllgor Dethol, bydd angen i aelodau ymrwymo i bob cyfarfod ymchwiliad. Fel y nodwyd uchod, bydd strwythur cyfarfodydd y Pwyllgor Dethol yn cael ei bennu gan gylch gorchwyl pob ymchwiliad unigol.

Disgwylir i aelodau wneud rhywfaint o waith annibynnol o ran archwilio papurau cyn gwrandawiadau, a chreu llwybrau holi ystyriol a mesuredig ar gyfer tystion sy'n bresennol yng ngwrandawiadau ymchwiliadau'r Pwyllgor Dethol i roi tystiolaeth.

**8. PROSES YSGRIFENYDDIAETH / PWYLLGOR DETHOL**

Cynorthwyir aelodau'r Pwyllgor Dethol gan Swyddog Cymorth Gweithredol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Cyfrifoldeb Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu fydd rheoli ymchwiliadau a gweinyddu cyfarfodydd.

Bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cadw i fyny â materion sy'n dod i'r amlwg o fewn maes dylanwad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ac yn awgrymu ymchwiliadau posibl, eu cwmpas a'u ffocws.

Er y bydd manylion gweinyddiaeth pob ymchwiliad yn cael eu pennu yn y cylchoedd cwmpasu a'r cylchoedd gorchwyl unigol, bydd yn dilyn y fformat cyffredinol canlynol:

1. Trafodaeth gan aelodau Tîm Uwch-reolwyr Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i nodi pynciau cychwynnol posib.
2. Sefydlu gweithgor Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, dan arweiniad cynghorydd polisi, gydag aelodau wedi'u henwebu gan Dîm yr Uwch-reolwyr. Bydd y gweithgor yn trafod pynciau posibl ac yn nodi / cynnig prif faes ffocws.
3. Datblygu dogfen PICK a SAND gan y gweithgor i sefydlu'r rhesymeg dros y prif faes ffocws arfaethedig.
   - Mae'r elfen PICK yn caniatáu i'r gweithgor ystyried gwerth cyflwyno pwnc ar gyfer camau gweithredu pellach, gan ystyried a fyddai er budd y cyhoedd, ei effaith bosibl, y perfformiad presennol o fewn y portffolio, a gweithgareddau sicrwydd ac arolygu eraill.
   - Defnyddir yr elfen SAND i argymell y camau nesaf ar gyfer y pwnc arfaethedig, h.y. craffu, camau gweithredu, dim camau gweithredu pellach, neu benderfyniad.
4. Drafftio cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad.
5. Cyflwyno PICK, SAND a'r cylch gorchwyl i'r Tîm Uwch-reolwyr i'w hystyried.
6. Unrhyw olygiadau canlyniadol a wnaed i'r cynnig cyn ei gyflwyno i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'i dîm gweithredol.
7. Cyfarfod cychwynnol o'r Pwyllgor Dethol i ystyried y prif faes ffocws arfaethedig, ac i gytuno ar gwmpas a ffocws penodol yr ymchwiliad, yn ogystal â'r tystion allweddol i'w gwahodd i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol.
8. Datblygu cynllun ymgysylltu a chyfathrebu â'r cyhoedd.

9. Galwad am dystiolaeth ysgrifenedig – a all fod yn eang a chyhoeddus neu’n gul a chyfeiriedig.
10. Ymchwil / gwaith maes a gynhaliwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gasglu data a thystiolaeth arall i ategu’r ymchwiliad.
11. Sesiynau tystiolaeth lafar – gall y gwahoddedigion gynnwys tystion arbenigol, cynrychiolwyr cymunedol, unigolion â phrofiad personol a rhanddeiliaid eraill.
12. Gellir defnyddio ymweliadau’r Pwyllgor Dethol i ymgysylltu â gwasanaethau / defnyddwyr ar adeg y ddarpariaeth er mwyn casglu tystiolaeth uniongyrchol.
13. Briffiau a chwestiynau awgrymedig gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i’r Pwyllgor Dethol ar gyfer sesiynau tystiolaeth ac ymweliadau.
14. Briff gan y Pwyllgor Dethol yn nodi’r prif faterion a chanfyddiadau sy’n dod i’r amlwg o dystiolaeth a ddaeth i law.
15. Cyfarfod “penaethiaid adroddiadau” i gytuno ar strwythur arfaethedig yr adroddiad, amlinelliad y naratif a’r argymhellion.
16. Adroddiad drafft a chyfnod ar gyfer gwelliannau.
17. Adroddiad terfynol gydag argymhellion a chynllun cyhoeddi.
18. Ymatebion gan y Prif Gwnstabl a chyrff perthnasol eraill.

Bydd agendâu ac adroddiadau cysylltiedig ar gyfer y Pwyllgor Dethol yn cael eu dosbarthu i’r aelodau o leiaf bum diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn gyfrifol am gynnal cofnodion sy’n ymwneud â’r Pwyllgor Dethol. Bydd hyn yn cynnwys rheoli a chyhoeddi’r cofnodion a llunio agendâu a phapurau cyfarfodydd.

Bydd angen marcio’r holl bapurau sy’n dod i law yn unol â Chynllun Dosbarthu Diogelwch y Llywodraeth yn briodol i ddiogelu rhag datgeliad amhriodol.

Ni fydd cyfarfodydd y Pwyllgor Dethol sy’n ymwneud â rheoli’r broses ymchwilio yn cael eu recordio, ond cedwir cofnod o’r camau gweithredu. Fel arfer, bydd sesiynau tystiolaeth / gwrandawiadau yn cael eu darlledu ar y we, eu recordio a’u cyhoeddi ar wefan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Felly, disgwylir y bydd manylion y materion a drafodir yn y sesiynau hyn yn addas i’w rhyddhau’n gyhoeddus, ond bydd unrhyw faterion sy’n sensitif yn weithredol, yn ymwneud â gwybodaeth bersonol neu sydd â sensitifrwydd masnachol naill ai’n cael eu cyhoeddi ar adeg briodol yn y dyfodol neu’n cael eu cadw gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Gwneir y penderfyniadau sy’n ymwneud â rhyddhau gwybodaeth i’r cyhoedd yn unol â’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac offerynnau neu reoliadau statudol eraill sy’n berthnasol i’r gwasanaeth plismona a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

## 9. RHEOLI FERSIYNAU A DYDDIAD ADOLYGU

| | |
|---|---|
| Fersiwn: | 2025-1 |
| Awdur: | Hannah Hyde, Cynghorydd Polisi |
| Dyddiad cymeradwyo: | 07/05/2025 |
| Bwrdd cymeradwyo: | Pwyllgor Dethol |
| Dyddiad adolygu: | Mai 2026 |